| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych |
| **DYDDIAD:** | 23 Mawrth 2023 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL A SEFYDLIAD:** | Amanda Jones, Rheolwr Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| **SWYDDOG CYSWLLT A SEFYDLIAD:** | Hannah Edwards, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| **TESTUN:** | Grant Cefnogi Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru 2023-24 i 2025-26 |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi gwybodaeth i'r Bwrdd am y grant sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru (LlC) i ranbarth Gogledd Cymru yn 2023-24, 2024-25 a 2025-26, a sut mae'r arian wedi'i ddyrannu ar draws y meini prawf a nodir gan LlC, gan gynnwys manylion am y math o weithgareddau arfaethedig. Mae'r ffurflen gais am grant yn Atodiad A a meini prawf y grant yn Atodiad B (ar gyfer 2023-24).

## 2. Argymhellion

2.1 Bod aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn nodi'r adroddiad, ac yn enwedig y newid i'r cyfnod ariannu (dros 3 blynedd yn awr yn hytrach na bob blwyddyn), swm yr arian sydd ar gael a'r meini prawf sy'n berthnasol.

2.2 Bod aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael cyfle i awgrymu meysydd gwaith a allai gael eu hystyried i'w cynnwys, wedi'u halinio â'r categorïau lefel uchel a amlinellwyd yn y cynnig ariannu.

## 3. Manylion yr Adroddiad

3.1 Bwriad y cyllid yw i gynorthwyo Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) i ddatblygu eu capasiti a gallu strategol, yn ogystal â chryfhau cyfranogiad ac ymgysylltiad i gefnogi BGC wrth gyflwyno'r cynllun lles lleol nesaf.

3.2 Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru (gyda chefnogaeth swyddogion), wedi ystyried sut y gellir defnyddio'r arian hwn yn y rhanbarth i gefnogi darpariaeth eu Cynlluniau Lles. Mae'r cynnig sydd wedi'i ddatblygu yn fwriadol ar lefel uchel ac eang i gynnwys pob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn Rhanbarth Gogledd Cymru ac i ganiatáu hyblygrwydd. Mae cyllid wedi cael ei ddyrannu fel a ganlyn (mae manylion pellach am weithgareddau arfaethedig yn Atodiad A):

| Crynodeb o'r Cynnig | Amserlen Ddisgwyliedig | Ffigurau Dangosol |
|---|---|---|
| **Datblygu capasiti a galluogrwydd strategol ledled y rhanbarth**<br>• Darparu rhaglen arweinyddiaeth a chrëwr newid.<br>• Parhau i ddatblygu partneriaeth ranbarthol gref ym Mhartneriaeth Dealltwriaeth Gogledd Cymru.<br>• Rhaglen i wella sut rydym yn cyfathrebu gweithgareddau'r BGC ar draws ein rhanbarth, gyda'n gilydd a'n cymunedau. | 01/04/23 - 31/03/24 | £20,000 |
| **Cefnogi darpariaeth Cynlluniau Lles - ar draws BGC**<br>• Rhaglen ymgysylltu o gyfathrebu a brandio.<br>• Datrysiad rhanbarthol o ran storio, diweddaru a rhannu data, tystiolaeth a dealltwriaeth. | | £20,000 |
| **Cefnogi darpariaeth Cynlluniau Lles - ar draws cymunedau**<br>• Rhaglen gynhwysfawr o ymgysylltu cymunedol a chynyddu gallu.<br>• Rhaglen beilot ymgysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned.<br>• Dull rhanbarthol o gyfathrebu lles sy'n cael ei greu ar y cyd â'n cymunedau. | | £64,000 |
| **Cyfanswm y grant a ddyfarnwyd** | | **£104,000** |

3.3 Fel y blynyddoedd blaenorol, cynigir arian ar ôl troed bwrdd iechyd, ac mae £103,892 ar gael i Ranbarth Gogledd Cymru ym mlwyddyn ariannol 2023-24. Mae Cyngor Sir y Fflint, fel awdurdod arweiniol, wedi gweithio gyda Grŵp Rheoli Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru (yn cynnwys swyddogion sydd yn cefnogi BGC ar draws bartneriaid) i gyflwyno'r cynnig ar gyfer 2023-24.

3.5 Ni ellir defnyddio'r arian ar gyfer:

- Datblygu, darparu neu gynnal prosiectau penodol a ddewiswyd gan y BGC.
- Gweithgareddau monitro a gwerthuso i ddangos tystiolaeth o ganlyniadau ac olrhain cynnydd dros amser (oni bai am gynnal a chadw'r porth data).
- Cefnogaeth bartneriaeth gyffredinol.
- Ariannu swyddi cyflogedig parhaol (h.y. a ariennir drwy'r grant cefnogi hwn yn unig).

3.6 Bydd Cyngor Sir y Fflint yn monitro cynnydd y gwaith a ariennir, gan sicrhau rheolaethau ariannol digonol. Bydd tanwariant a gorwariant yn cael eu monitro'n benodol gan yr awdurdod

arweiniol, a rhoddir diweddariadau rheolaidd drwy Grŵp Rheoli Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru.

3.7 Bydd adroddiadau cynnydd chwarterol yn cael eu rhoi i LlC, yn dangos sut mae amcanion yn cael eu bodloni, a sut mae'r gwaith sy'n cael ei ariannu yn ymwneud â Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus yn fwy cyffredinol.

3.6 Bydd cyfnod yr arian o 1 Ebrill 2023 – 31 Mawrth 2024, a thelir yr arian mewn un rhandaliad gan Lywodraeth Cymru ar ddiwedd y cyfnod ariannu, wrth gwblhau ffurflen hawlio foddhaol. Gyda chytundeb gan yr awdurdod arweiniol, bydd partneriaid yn derbyn bil i ddechrau ar gyfer unrhyw waith sy'n cael ei gynyddu, yna'n anfonebu Cyngor Sir y Fflint am y cyfanswm sy'n ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

## 4. Ymgynghori

4.1 Trafodwyd y cynnig i ddechrau â Grŵp Rheoli Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru ym mis Chwefror 2023. Rhannwyd cynnig drafft ar gyfer adborth â phob un o swyddogion cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus cyn ei gyflwyno. Yna, rhannwyd y cynnig at sylw cadeiryddion y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

## 5. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

5.1 Mae yna risg o or-wariant gyda'r grant hwn, a fyddai'n debygol o arwain at ddyled ariannol i bartneriaid.

5.2 Mae yna risg o danwario'r grant hwn, a allai gael ei ystyried fel colli cyfleoedd i'r rhanbarth.

## 6. Pŵer i wneud y penderfyniad

6.1 Mae'r cyllid hwn ar gael i gefnogi Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i fodloni eu hymrwymiadau o ran Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae ar gael yn benodol i gynorthwyo gyda datblygiad cynlluniau lles a'r gwaith parhaus o ddatblygu a chynnal asesiadau o les lleol.

6.2 Os byddwn yn llwyddo, rydym yn disgwyl:

- Bod ein hasesiadau o les lleol yn gyfredol, yn berthnasol ac yn hawdd eu defnyddio, (o leiaf mewn perthynas â'r meysydd blaenoriaeth y mae'r Byrddau Gwasanaethau Lleol wedi'u gosod).
- Cyfranogiad gweithgar ac ystyrlon budd-ddeiliad, yn cynnwys grwpiau anodd eu cyrraedd.
- Bod cynlluniau lles ac adroddiadau blynyddol yn cael eu cyfathrebu'n glir a'u deall gan fudd-ddeiliaid, gan osgoi dyblygu.
- Bod camau a gymerwyd neu a gynlluniwyd i gefnogi amcanion lles wedi'u cwmpasu ar y cyd a'u llywio gan dystiolaeth ac arfer gorau.